adnabod awdur
Bob Eynon



Pan oeddwn i'n fachgen bach roedd fy mam yn arfer eistedd wrth fy ngwely bob nos a dweud stori wrtho'i. Doedd hi ddim yn darllen allan o lyfr neu gylchgrawn o gwbl: roedd pob stori'n newydd ac yn dod o'i dychymyg hi. Anifeiliaid oedd arwyr y storïau – yn enwedig Twrsi y crwban, oedd yn gymeriad digri iawn. Un o'm hatgofion cyntaf ydy mynd i gysgu gan chwerthin ar ôl gwrando ar antur Twrsi.

Yn anffodus, ysgrifennodd fy mam ddim byd i lawr ar bapur, felly dim ond atgofion bore oes ydy storïau'r crwban bach i fi. Ond rwy'n siŵr bod dylanwad fy mam yn aros gyda fi o hyd, ac rwy'n ddiolchgar iddi hi am yr oriau a dreuliodd gyda fi yn helpu fy nychymyg i ddatblygu, achos mae'r dychymyg yn rhan bwysig o bob un ohonon ni, on'd yw e?

Wel, aeth blynyddoedd maith heibio cyn i fi ddechrau creu fy storïau fy hunan. Yna cofiais i fod storïau fy mam wedi mynd ar goll, a phenderfynais ysgrifennu fy syniadau i lawr a cheisio eu cyhoeddi nhw fel llyfrau, Roeddwn i'n lwcus; roedd papur bro lleol yn chwilio am storïau byr ar gyfer plant. Cyn bo hir roedd fy syniadau'n ymddangos mewn print.

Erbyn hyn rydw i wedi cyhoeddi nifer o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg, ond dydw i ddim am ymffrostio am hynny o gwbl achos rwy'n siŵr bod awduron mwy talentog na fi yng Nghymru sydd heb gyhoeddi dim byd achos dydyn nhw ddim wedi bod mor lwcus â fi.

Gyda llaw, os oes syniadau 'da chi – nofelau, storïau, barddoniaeth, dramâu – peidiwch â'u cadw nhw yn eich pen. Ysgrifennwch nhw i lawr a cheisiwch eu datblygu. Roeddwn i eisoes yn mynd yn hen pan ddechreuais i ysgrifennu storïau, ond rwy'n siŵr bod dyfodol llenyddiaeth Cymru'n perthyn i chi, y bobl ifanc.

Cyngor Llyfrau Cymru 2003

gwales.com

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government















Rhai o Lyfrau

Bob Eynon

Mae Bob Eynon wedi ysgrifennu ymhell dros ugain o lyfrau. Dyma rai sydd mewn print:

Bedd y Dyn Gwyn £3.25
Y Bradwr £3.50
Y Ferch o Berlin £3.50
Y Gŵr o Phoenix £3.25

Mae'r rhain hefyd ar gael ar gasét am £6.99.

Arian am Ddim £2.95
Yr Asiant Cudd £3.50
Y Blaned Ddur £3.25
Y Corff Anhysbys £3.75
Crockett yn Achub y Dydd £3.25
Y Deryn Du £3.99
Dol Rhydian £3.50
Gair o Bosnia £1.20
Y Giang £3.25
Y Giangster Coll £3.25
Lladd Akamuro £3.50
Marwolaeth heb Ddagrau £3.50
Trip yr Ysgol £3.25
Yn Nwylo Terfysgwyr £2.95
Cachgi £1.95
Y Gêm Pŵl £1.95
Yr Hen Dŷ £1.95

Cyfres ddarllen ail-iaith CBAC CA3 lefelau 4/5